



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Cyngor gafodd ei gynnal ddydd Iau, 10 Medi 2020 am 4pm

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd G Hughes - Cadeirydd

Y Cynghorydd M. Adams	Y Cynghorydd R. Bevan
Y Cynghorydd H. Boggis	Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd J. Brencher	Y Cynghorydd A. Calvert
Y Cynghorydd G. Caple	Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd A. Cox	Y Cynghorydd A. Crimmings
Y Cynghorydd J. Cullwick	Y Cynghorydd G. Davies
Y Cynghorydd L. De Vet	Y Cynghorydd M. Diamond
Y Cynghorydd J. Edwards	Y Cynghorydd J. Elliott
Y Cynghorydd S. Evans	Y Cynghorydd S. Evans
Y Cynghorydd M. Fidler Jones	Y Cynghorydd M. Forey
Y Cynghorydd A. Fox	Y Cynghorydd H. Fychan
Y Cynghorydd M. Griffiths	Y Cynghorydd E. Griffiths
Y Cynghorydd G. Holmes	Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd G. Hopkins	Y Cynghorydd L. Hooper
Y Cynghorydd P. Jarman	Y Cynghorydd P. Howe
Y Cynghorydd K Jones	Y Cynghorydd J. James
Y Cynghorydd W. Jones	Y Cynghorydd G. Jones
Y Cynghorydd W. Lewis	Y Cynghorydd L. Jones
Y Cynghorydd A. Morgan	Y Cynghorydd R. Lewis
Y Cynghorydd S. Morgans	Y Cynghorydd C. Leyshon
Y Cynghorydd D. Owen-Jones	Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd S. Pickering	Y Cynghorydd M. Norris
Y Cynghorydd S Powell	Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd S. Rees	Y Cynghorydd M. Powell
Y Cynghorydd J Rosser	Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd E Stephens	Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd W Treeby	Y Cynghorydd A. Roberts
Y Cynghorydd L Walker	Y Cynghorydd G. Stacey
Y Cynghorydd M. Webber	Y Cynghorydd G. Thomas
Y Cynghorydd D. Williams	Y Cynghorydd R. Turner
Y Cynghorydd T. Williams	Y Cynghorydd M. Weaver
Y Cynghorydd R. Yeo	Y Cynghorydd E. Webster
Y Cynghorydd A Davies-Jones	Y Cynghorydd J. Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr B. Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd

Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Mr G. Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr N. Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

182 Croeso a Chyflwyniadau

Cafodd cyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan (Grŵp Llafur)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp Annibynnol)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James (Grŵp y Ceidwadwyr)

183 Datganiad o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

184 Ymddiheuriadau

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, S Bradwick, J Davies, E George, D Grehan, M Tegg, G Williams a C Willis.

185 Diweddariad gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf

Diolchodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan, i'r Aelodau am fynychu'r cyfarfod arbennig yma i dderbyn diweddariad mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf.

Rhannodd yr Arweinydd y newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r garfan Profi, Olrhain a Diogelu sydd wedi helpu i lunio map a nodi mannau penodol a chlystyrau ar draws y Fwrdeistref Sirol megis yn ardal Cwm Rhondda Isaf, Pontypridd ac yn rhannau o Gwm Cynon. Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd canolfan brofi deithiol Y Porth yn cael ei hadleoli. Bydd manylion yn cael eu rhannu ag Aelodau'n unol â hynny. Bydd y lleoliad newydd yma'n caniatáu profi drwy ffenest y car yn ogystal â phrofion galw i mewn. O ganlyniad i hynny bydd modd cyflawni 400-500 o brofion bob dydd. Ychwanegodd yr Arweinydd bod nifer y profion yn ein galluogi i ennill dealltwriaeth well o'r sefyllfa yn RhCT ac osgoi cyfyngiadau symud lleol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hylendid sylfaenol a golchi dwylo'n aml yn ogystal â gwisgo gorchudd wyneb (a allai ddod yn orfodol mewn siopau ac archfarchnadoedd) yn ogystal â chydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Cafodd Aelodau wybod am y newyddion diweddaraf mewn perthynas â Hysbysiadau Gwella Eiddo sydd wedi'u cyflwyno i siopau ar draws y Fwrdeistref Sirol am beidio â chydymffurfio â Rheoliadau Covid-19 a pheri risg i'r cyhoedd. Mae'r Arweinydd wedi cefnogi Carfan Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd y Cyngor i gyflawni camau gorfodi pellach gan gynnwys cynnig yr opsiwn i newid yr Hysbysiad Gwella i Hysbysiad Cau Eiddo yn achos busnesau sydd ddim yn mynd ati i gywiro'r problemau gafodd eu hamlygu.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod ymweliadau dan do, ac eithrio ar gyfer gofal

diwedd oes, bellach wedi dod i ben (mae Cartrefi Gofal y Sector Preifat hefyd yn dilyn y mesurau yma). Rydym bellach yn cynnig profion Covid-19 wythnosol i staff Cartrefi Gofal i'w cefnogi nhw.

Mae archwiliadau'n cael eu cynnal o hyd mewn perthynas ag Eiddo Trwyddedig y Sir. Mae Hysbysiadau Gwella Eiddo neu Hysbysiadau Cau Eiddo wedi'u cyhoeddi yn achos eiddo sydd ddim yn cydymffurfio. Mae achosion o dorri rheolau'n cynnwys peidio â darparu cyfleusterau golchi dwylo, peidio â chofnodi manylion tracio ac olrhain yn yr eiddo a diffyg arwyddion priodol. Roedd yr Arweinydd wedi galw ar yr Aelodau Lleol i gefnogi'r Cyngor yn achos cyflwyno hysbysiadau gwella neu hysbysiadau cau yn eu wardiau.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod un deg tri achos positif o Covid-19 wedi'u cadarnhau mewn ysgolion o ganlyniad i drosglwyddo'r feirws mewn ysgolion. Tynnodd sylw at yr holl weithdrefnau cadarn sydd ar waith pan fydd achos o drosglwyddo'r feirws yn codi mewn ysgol. Mae cyfarfodydd cyson yn parhau i gael eu cynnal gyda'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd bod yr wybodaeth wedi'i rhannu gan yr Arweinydd mewn perthynas â chefnogi'r garfan lechyd a Diogelwch y Cyhoedd o ran ei gwaith gorfodi yn y cymunedau lleol i sicrhau diogelwch trigolion. Siaradon nhw hefyd am gymorth Heddlu De Cymru a Gwasanaethau eraill y Cyngor, megis y Gwasanaethau Trwyddedu a Safonau Masnach er mwyn mynd i'r afael ag achosion o dorri rheolau.

Gofynnodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman (Grŵp Plaid Cymru) am eglurhad mewn perthynas â'r materion canlynol:

1. Cartrefi Gofal ac ymwelwyr yn dilyn sylwadau diweddar y Comisiynydd Pobl Hŷn
2. Y broses Tracio ac Olrhain, yn enwedig mewn perthynas â chofrestru manylion cwsmeriaid yr Eiddo Trwyddedig.
2. Rhoi caniatâd lleol i gyflwyno gofyniad statudol sy'n gofyn i holl aelodau staff a chwsmeriaid wisgo gorchudd wyneb mewn siopau er mwyn lleihau lledaeniad y feirws.
3. Monitro presenoldeb ac iechyd a lles y teithwyr ifainc hynny sydd ddim yn gymwys i ddefnyddio gwasanaeth cludiant rhwng y cartref a'r ysgol y Cyngor (roedd 800 o bobl ifainc y llynedd)
4. Dosbarthu bagiau ailgylchu i drigolion

Cododd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell (Grŵp Annibynnol RhCT) bryderon mewn perthynas â'r materion canlynol:-

1. Manylion ynghylch lleoliad y manau penodol sydd â nifer fawr o achosion
2. A oes modd gweithredu cyfyngiadau symud lleol mewn manau penodol er mwyn osgoi effeithio ar ardaloedd sydd ddim wedi'u nodi fel manau â nifer fawr o achosion
3. Mesurau cadw pellter cymdeithasol ychwanegol o gwmpas ysgolion lle mae ffyrdd a llwybrau cul

Gofynnodd Y Cyngorydd J James a yw cyfyngiadau symud yn debygol o gael eu gweithredu yn RhCT, a faint o rybudd fydd yn cael ei roi.

Aeth Arweinydd y Cyngor ati i ymateb i'r holl ymholiadau a rhoddodd wybod bod Comisiynydd Pobl Hŷn wedi canmol proses gyfathrebu'r Cyngor mewn perthynas â mesurau diweddaraf y Cyngor. O ran Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol, manteisiodd y Cyngor ar y cyfle i atgoffa'r Cyngor bod mesurau cadw pellter cymdeithasol ar bob cerbyd cludiant ysgol wedi golygu bod gan gerbydau cludiant capasiti llawer llai, ond bydd seddi gwag yn cael eu gwerthu yn dilyn proses adolygu.

Esboniodd yr Arweinydd na fyddai gweithredu cyfyngiadau symud mewn ardaloedd penodol yn ddoeth gan fod nifer o drigolion yn teithio o gwmpas y sir er mwyn siopa, gweithio ac ymweld â theulu yn yr ardal. Roedd hefyd wedi rhybuddio yn erbyn cyhoeddi'r mapiau sydd wedi'u nodi uchod fel mannau â nifer uchel o achosion, gan na fyddai hyn yn cynnig y cyd-destun cyfan i drigolion RhCT. I gloi, pwysleisiodd yr Arweinydd y bydd datganiad ar y cyd gan Gyngor RhCT a Chyngor Merthyr Tudful mewn perthynas ag osgoi cyfyngiadau symud lleol yn cael ei rannu â'r holl Aelodau'r Cyngor cyn ei gyhoeddi.

Wrth gloi cyfarfod y Cyngor, atgoffodd y Dirprwy Lywydd yr Aelodau y dylai unrhyw gwestiynau pellach gael eu cyflwyno gan Arweinwyr Grŵp.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.55pm

**Y Cyngorydd G Hughes
Cadeirydd**